



---

## YSGOL I.D. HOOSON

---

27.3.23

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,  
Dear Parent/Carer,

A fyddech cystal y chymryd ychydig o funudau i ddarllen y wybodaeth ganlynol. A fyddech hefyd yn rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda unrhyw aelodau eraill o'r teulu a all fod a chyfrifoldeb i ddod a, neu gasglu eich plentyn o'r ysgol. Diolch  
*Could I ask all parents/carers to spend a few minutes to read the following information. Can I also ask you to share any relevant information with other relatives who may have responsibility for bringing or collecting your child to/from school. Thank you.*

**BINGO** - Cofiwch am y Bingo Pasg sydd i'w gynnal ar nos Iau Mawrth y 30ain. Bydd y gemau yn cychwyn am 6.30 o'r gloch. Oherwydd rheolau Iechyd a Diogelwch, nifer cyfyngedig fydd yn gallu cael mynediad, ac felly bydd angen sicrhau eich bod wedi prynu tocyn cyn y noson.

**BINGO** - Remember the Easter Bingo which will be held on Thursday the 30<sup>th</sup> of March, to start at 6.30. Due to health and safety, entry to the Bingo will be limited, and therefore tickets must be purchased in advance.

**Traffig** - Hoffwn atgoffa pob rhiant a gofalwr i gymryd pwyll ar y maes parcio wrth yrru i mewn ac wrth ymadael a'r safle. Mae'r maes parcio yn le prysur iawn yn enwedig ar ddiwedd dydd, ac felly gofynnwn i bawb gymryd pwyll gan wyllo plant a cherddwyr, a cheir eraill. Cyflymder uchafswm yn dylid gyrru car o fewn safle'r ysgol yw 5mya. Pan yn casglu eich plentyn o'r ysgol, a fyddech cystal a sicrhau ei fod ef/hi yn cael ei oruchwylo gan oedolyn wrth wneud ei ffordd tuag at y car neu wrth gerdded adref, gan ein bod wedi derbyn adroddiadau o bryderon sydd yn ymwneud a phlant yn rhedeg tuag at yr ardal barcio pan yn brysur iawn ar ddiwedd y p'nawn heb eu goruchwylio. Diolch.

**A fyddai pob rhiant a gofalwr yn osgoi parcio ar yr ochr yn yr ardal sydd yn arwain allan o'r ysgol. Mae hyn yn creu anghyfleustra mawr yn ystod amseroedd prysur gan ei fod yn rhwystro llif y traffig. Gofynnir hefyd i bob rhiant sicrhau nad ydynt yn parcio mewn modd sydd yn rhwystro mynediad i'r ysgol yn y bore ac ar ddiwedd y dydd. Gall hyn greu sefyllfa beryglus mewn achos ble byddai angen i'r gwasanaethau brys gael mynediad i safle'r ysgol ar frys.**

**A fyddech cystal a pheidio a parcio yn yr ardaloedd sydd wedi marcio gyda coniau. Diolch am eich cydweithrediad.**

**Traffic** - I would like remind all parents and carers to take great care when driving into the school site and when leaving the car park area. The parking area is a very busy place, especially at the end of the school day. Please take great care looking out for children and other pedestrians as well as other vehicles. The speed limit within the school site is **5 mph**. When collecting your child from school, please ensure that he/she is accompanied by an adult when making their way to the car or when walking home, as we have received reports of children running unsupervised towards the parking area when it is very busy. Thank you.

**Can all parents/carers avoid parking on the side in the area of road which leads out of the school. This often creates great inconvenience during busy times as it often restricts the flow of traffic. Please also ensure that cars are not parked in areas which may restrict access into the school site in the morning or at the end of the school day. This may cause an increased risk to others in a situation where emergency services may be required to access the school site.**

Please do not park in the areas where cones have been placed. Thank you for your co-operation.

**Gwisg ysgol/Esgidiau** - Wrth i ni edrych ymlaen tuag at dymor ysgol newydd ar ôl Pasg, hoffwn eich atgoffa fod gan yr ysgol bolisi gwisg ysgol. Yn rhan o'r polisi, nodir mai **esgidiau du** a ddylid ei gwisgo ar gyfer yr ysgol. Rydym wedi sylwi fod rhai disgyblion yn gwisgo trainers i'r ysgol ar ddyddiau pan nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol. Hoffwn hefyd eich atgoffa fod angen i bob plentyn ddod a gwisg addysg gorfforol addas i'r ysgol ar gyfer gwersi addysg gorfforol, sydd yn cynnwys siorts glas tywyll neu ddu a chrys polo yr ysgol.

**School uniform/Shoes**-As we look forward to the beginning of a new term after Easter, I would like to remind all parents/carers that the school does have a school uniform policy. Within the policy it states that **black shoes should be worn for school**. It has been noted that some children are wearing trainers to school on days when they are not taking part in PE activities. The children also require a suitable PE kit for weekly physical education activities, which includes dark blue or black shorts and school polo shirt.

**Hwyl fawr** - Ar ddiwedd y tymor, byddwn yn ffarwelio gyda Miss Delyth Jones. Mae Miss Jones wedi gweithio fel cymhorthydd dosbarth yn yr ysgol dros gyfnod hir o bron i bymtheg mlynedd, ac felly diolchwn iddi am ei chyfraniad i'r ysgol, gan ddymuno yn dda iddi i'r dyfodol.

**Farewell** - At the end of the term, we will be saying farewell to Miss Delyth Jones. Miss Jones has worked as a teaching assistant in the school over a period of almost fifteen years, and we therefore thank her for her contribution to the school. We wish her well for the future.

**EISTEDDFOD YR URDD** - Hoffwn longyfarch yr holl blant sydd wedi bod yn cystadlu yn yr eisteddfodau llwyfan a dawns yr Urdd dros yr wythnosau diwethaf. Roedd pob un wedi perfformio yn wych ac roedd yr ysgol yn falch iawn ohonynt. Da iawn iddyn nhw i gyd.

Mae rhai o'r plant wedi cael llwyddiant arbennig iawn gan orffen yn gyntaf yn ei cystadlaethau, ac felly bydd y canlynol yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanymddyfri yn mis Mai.

**URDD EISTEDDFOD** - I would like to congratulate all the children who have been busy competing in the Urdd stage and dance eisteddfod over the past few weeks. The children performed excellently and we were very proud of them. Well done to them all.

Some of the children have been even more successful, winning their competition, and therefore the following will be travelling to Llandovery during May to compete in the National Eisteddfod.

Grwp Dawns Creadigol / Creative Dance Group  
Grwp Dawns Aml-Gyfrwng / Multi Media Dance Group  
Grwp Cerdd Creadigol / Creative Music Group  
Elen Dodd - drymio/drums

**DIWEDD TYMOR** - Bydd yr ysgol yn cau am y Pasg ar ddydd Gwener Mawrth y 31ain. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddymuno Pasg hapus i chi gyd, gan ddiolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod tymor prysur arall yn yr ysgol. Edrychwn ymlaen felly i groesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl y Pasg, gan edrych ymlaen at brysurdeb tymor yr Haf. Cofiwch fod dydd Llun Ebrill y 17eg yn ddiwrnod hyfforddiant staff, ac felly bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ddydd Mawrth Ebrill 18fed.

**END OF TERM** - On Friday March 31<sup>st</sup>, the school closes for the end of term. I would like to take this opportunity to wish you all a happy Easter break, and thank you all for your support and co-operation during another busy term. We look forward to welcoming everyone back to school after Easter, for the beginning of a busy Summer term. Please remember that Monday April 17<sup>th</sup> will be a staff training day, and therefore school will re-open for the pupils on Tuesday April 18<sup>th</sup>.

*Yn ddiffuant/Yours sincerely,*

Mr Rhodri Jones  
Pennaeth / Headteacher